www.mantellgwynedd.com

MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 45
Mai 2009

Lansio GwirVol

CYNNWYS

Pwt y Prif Swyddog 2
Newyddion 3
Plant a Phobl Ifanc 4
Grantiau 5
Canolfan Gwirfoddoli 6
Y Porth Ymgysylltu 7
Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles 7
Digwyddiadau a Hyfforddiant 8

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

Gweithwyr Ieuenctid GwirVol gyda Mirain Roberts, Swyddog Gwynedd, ail o'r dde.

Ar y 6ed o Ebrill yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd cafodd, GwirVol ei lansio'n ffurfiol gan Dr Brian Gibbons, Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Partneriaeth Unigryw o Gymru yw GwirVol sy'n mynd ati i ymwneud â mudiadau a phobl ifanc er mwyn cynyddu nifer o gyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli yng Nghymru.

Roedd nifer o bobl ifanc a mudiadau yn bresennol ynghyd â'r 22 Cynghorwr Gwirfoddoli Ieuenctid sydd wedi eu lleoli ar draws siroedd Cymru.
Yn arwain ac wedi trefnu'r lansiad oedd GwirForce – sef panel o bobl ifanc sydd yn gyfrifol am arwain ar faterion sydd yn effeithio GwriVol.

Gobeithio bydd GwirVol yn hwb arall i boblogrwydd gwirfoddoli ymysg pobl ifanc.

Os hoffech wybod rhagor am GwirVol, cliciwch ar: **www.gwirvol.org** neu codwch y ffôn i gael sgwrs gyda Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid yng Nghanolfan Gwirfoddoli Gwynedd – Mirain Roberts – 01286 672626.

Dr. Brian Gibbons.

GwirVol

Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. Ffôn: 01286 672626 • Ffacs: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB.Ffôn: 01341 422575 • Ffacs: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwyddyn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd.
Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

Nodyn gan y Prif Swyddog

O'r diwedd dyma'r gwanwyn yma ac ychydig o dywydd heulog cynnes wedi cyrraedd fel mae'r newyddlen yma yn mynd i'r wasg . Mae'r tywydd dros y Pasg wedi bod yn fendigedig a fedrwn i 'mond gobeithio ei fod yn arwyddocaol o'r math o dywydd sydd o'n blaenau dros y misoedd nesaf. Gobeithio yn wir!

Erbyn hyn mae ein Swyddog Porth Ymgysylltu wedi dechrau ar ei gwaith ym Mantell Gwynedd. Tydi'r swyddog ddim yn wyneb newydd ym Mantell ond yn hytrach yn un cyfarwydd iawn i ni, sef Carys Williams o Benygroes, Dyffryn Nantlle. Mae Carys wedi gweithio acw ers nifer o flynyddoedd, yn gyntaf fel Swyddog Cronfa Allweddol ac wedyn fel Swyddog Cymunedau'n Gyntaf. Daeth ein cytundeb i weithio yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i ben ddiwedd fis Mawrth eleni ac felly mae Carys rŵan yn gweithio ar gynllun y Porth Ymgysylltu ac wedi ei lleoli yn y Ganolfan Wirfoddoli yma ym Mantell a bydd hefyd yn gweithio o Swyddfa Dolgellau yn gyson.

Fel y soniais eisoes yn y newyddlen hon, cynllun Cydgyfeiriant werth £29m yw Cynllun y Porth Ymgysylltu a'r bwriad yw taclo'r economaidd anweithgar a'r pwyslais ar wirfoddoli. Mae'n cael ei weinyddu yn genedlaethol gan y WCVA ac mae'r cynllun yn cynnig cyfle i fudiadau mewn ardaloedd cydgyfeiriant (fel Gwynedd) i fedru tendro am ddarnau o waith penodol. Dyma, mae'n debyg i mi, fydd y "trend" dros y blynyddoedd nesaf sef tendro am ddarnau o waith yn hytrach na gwneud ceisiadau am grantiau. Fel mae'r potiau grantiau traddodiadol yn lleihau mae cyfleoedd i dendro i weld yn cynyddu. Mae cynllun y Porth Ymgysylltu yn rhoi cyfle go iawn i'r Trydydd Sector yng Ngwynedd fedru tendro i gyflawni prosiectau penodol yn y sir. Mae'n bwysig fod y grwpiau sydd am wneud hyn yn cysylltu efo Carys ym Mantell Gwynedd er mwyn llenwi ffurflenni penodol fydd yn eu galluogi i fynd ar restr o ddarparwyr cymwys. Rydym eisoes wedi cynnal gweithdai yng Ngwynedd i'r perwyl yma ac mae rhagor o fanylion o fewn tudalennau'r newyddlen hon yn eich annog i gysylltu â ni i'ch cynorthwyo i fod yn rhan o gynllun y Porth Ymgysylltu. Cysylltwch efo Carys ar unwaith a bydd yn gallu eich cynorthwyo gyda'r gwaith.

Cefais y pleser o fod yn rhan o banel oedd yn cyfweld unigolion ar gyfer swydd Prif Swyddog Cynnal Gofalwyr yn ddiweddar. Fel y gŵyr nifer ohonoch sydd yn weithgar yn y sector yng Ngwynedd mae Mari Boyle yn ymddeol o'i swydd fel Prif Swyddog y mudiad. Bu Mari yn genhades aruthrol o effeithiol i'r mudiad Cynnal Gofalwyr am nifer fawr o flynyddoedd a bydd yn gadael bwlch enfawr ar ei hôl. Dwi'n siŵr fod y sector cyfan yn diolch iddi am ei blynyddoedd o ymroddiad ac yn dymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad. Mae'n dda gennyf ddweud fod ei holynydd, Manon Williams, yn un o gyn aelodau staff Mantell Gwynedd a bu'n rhedeg y Ganolfan Wirfoddoli (yr hen Bwiro Gwynedd) flynyddoedd yn ôl. Ers hynny bu Manon yn gweithio i'r WCVA yng Nghaerdydd, wedyn yn Johennesburg a hefyd yn Korea. Dwi'n siŵr y bydd Manon yn gaffaeliad mawr i Cynnal Gofalwyr fel y bu Mari Boyle dros y blynyddoedd a dymunwn yn dda iddi wrth iddi ddechrau ei swydd newydd.

Gyda'r newidiadau enfawr sydd ar y gweill yn sgîl ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru mae yn gyfleoedd gwirioneddol i'r Trydydd Sector fod yn rhan o'r gyfundrefn iechyd newydd. Mae ein Hwylusydd Iechyd Gofal a Lles, Sioned Larsen, wedi bod yn gweithio'n ddyfal yn rhoi mewnbwn y Trydydd Sector i'r ad-drefnu yma er mwyn sicrhau lle amlwg i'r sector yn y gyfundrefn newydd. Mae'n dda gen i adrodd fod 13 o unigolion yn cynrychioli mudiadau yn y maes iechyd wedi cael lle ar y Grŵp Buddiolwyr Arbenigol. Mae Sioned a minnau hefyd ar y prif Grŵp Buddiolwyr. Mae hyn yn newyddion da i'r sector yng Ngwynedd. 'Rwyf yn ddiolchgar i'r rhai hynny roddodd eu henwau ymlaen ac sydd yn fodlon rhoi eu hamser a bod yn rhan o'r trafodaethau. Mae hwn yn gyfnod allweddol bwysig yn y maes iechyd yng Nghymru.

A dyna ni am y tro yma. Gobeithio y cewch flas ar y newyddlen ac y bydd rhywbeth at eich dant ynddi.

Tan tro nesa,

Bethan

AGE CONCERN CYMRU / HELP THE AGED YNG NGHYMRU

Mae Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru yn uno i ffurfio elusen newydd fydd yn ymroddi i wella bywydau pobl hŷn. Ni fydd hyn yn effeithio ar gyrff Age Concern lleol os nad ydynt yn rhan o'r uno. Mi fydd gwaith asiantaethau Age Concern lleol yn parhau fel yr arfer.

I lawrlwytho copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan Mantell Gwynedd - **www.mantellgwynedd.com**

Dwyieithrwydd, cynlluniau iaith, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a marchnata?

A yw'ch mudiad cymunedol chi angen cymorth gydag unrhyw un o'r rhain? Os oes, yna mae cymorth wrth law! Mae Estyn Llaw newydd gyrraedd Gogledd Cymru, gyda Mari Wiliam wedi'i hapwyntio fel y Swyddog Maes cyntaf i'r gogledd, wedi ei lleoli yn Llanelwy.

Rhywfaint o hanes:
Mae Estyn Llaw wedi bod yn weithredol yn bennaf yn Ne Cymru ers 2000, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy law Bwrdd yr Iaith. Gall Estyn Llaw roi cyngor am ddim i'ch mudiad chi gyda datblygu deunyddiau dwyieithog a chynlluniau iaith, mi wnaiff eich cynorthwyo i ganfod gwirfoddolwyr cyfrwng Cymraeg a threfnu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar eich cyfer. Gall delwedd fwy dwyieithog yn aml roi hwb i fudiad gyda chodi arian a'ch helpu i roi gwell gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg yn arbennig yn y sectorau gofal ac iechyd.

Croeso i unrhyw fudiad e-bostio Mari ar mari.wiliam@iaith.eu (un 'l' sydd yn y 'Wiliam', rhag ofn i'ch e-bost gael ei ddychwelyd!), neu ffoniwch 01745 585120/ 07966 936263. Plîs hefyd ymwelwch â'n gwefan

www.estynllaw.org

Gan edrych ymlaen at gydweithio efo'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru!

DEWCH I YMUNO Â NI yn Sioe Amaethyddol Meironnydd

CORWEN, dydd Mercher - 26ain Awst, 2009

Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i chi - holl fudiadau gwirfoddol sydd yn darparu gwasanaeth yn ardal Meirionnydd - i ymuno â Mantell Gwynedd yn eu pabell ar gae Sioe Sir Meirion eleni. Cynhelir y sioe dydd Mercher, Awst 26ain yng Nghorwen. Yn y gorffennol, mae pabell Mantell wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd ar ddiwrnod y sioe, gyda chroestoriad eang o fudiadau gwirfoddol yn rhannu y safle. Gofynnir am gyfraniad tuag at y costau, ond mae gweddill y trefnu i gyd yn cael ei wneud ganddom ni.

Felly peidiwch â cholli cyfle - gallwn eich sicrhau o ddiwrnod prysur yng nghwmni ein gilydd - cyfle i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd, ac i rwydweithio â mudiadau eraill gyda phawb dan yr un to. Felly codwch y ffôn heddiw (01341 422575) er mwyn sicrhau eich lle - edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych!

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **19eg Mehefin, 2009**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau: **beryl@mantellgwynedd.com • Ffôn: 01341 422575**

Gwirfoddolwyr y Mileniwm - Llwyddiannau

Llongyfarchiadau mawr iawn i Cerys Hudson - y person ifanc diweddaraf o Wynedd i ennill ei thystysgrif Gwirfoddolwr y Mileniwm am 100awr o wirfoddoli.

Mae Cerys yn astudio Hanes yn y Brifysgol ym Mangor, ond mae hi'n dal i roi ei hamser yn awr ac yn y man i Glwb y Geidiaid ym Mhorthmadog. " Rwy'n cael mwynhad o wirfoddoli ac wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r Geidiaid ers tua 4 mlynedd a hanner. Mae'n wych gweld y genod yn mwynhau ac yn llwyddo yn y gweithgareddau, yn ogystal â gwneud ffrindiau newydd".

Roedd yn amlwg o fy ymweliad ag un o gyfarfodydd wythnosol y Geidiaid ym Mhorthmadog fod Cerys wrth ei bodd yn gwirfoddoli, gydag aelodau ifanc o'r clwb yn hoff iawn ohoni hi. Da iawn ti Cerys.

Cerys yn derbyn ei thystysgrif gan Mirain Roberts

Ail Flwyddyn - Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc

Yn dilyn llwyddiant Grant Dan arweiniad Pobl Ifanc Comisiwn Russell yn '08/09, mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd wedi derbyn grant am yr ail flwyddyn. Ar gyfer y flwyddyn yma ('09/10) bydd £5000 o arian i'w rannu i grwpiau ar gyfer creu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc. Hefyd, gwelwyd newid enw i'r cynllun grantiau. Bellach, bydd yn cael ei adnabod fel – Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc – Gwirvol.

Nod y cynllun yw cefnogi gweithgareddau a phrosiectau gwirfoddoli bach, a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc.

Rownd gyntaf y grant ar agor o 1af o Ebrill 2009. Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau yw 1af o Fai 2009. Hysbysir yr ymgeiswyr llwyddiannus ar 11eg o Fai 2009.

Rhagwelir bydd ail rownd yn cael ei chynnal yn ystod Awst /Medi 2009, gyda dyddiad cau i gyflwyno'r ceisiadau tuag at ddiwedd Medi 2009.

Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â Mirain Roberts ym Mantell Gwynedd ar 01286 672626 neu mirainroberts@mantellgwynedd.com.

GwirVol

PLANT A PHOBL IFANC

Llogi/Benthyca Offer Cyfrifiadurol a Digidol Symudol

Llwyddodd Mantell Gwynedd yn 2008 i ddenu arian grant cyfalaf y Gwasanaeth Ieuenctid yng Ngwynedd er mwyn pwrcasu amrywiaeth o offer symudol i fudiadau gwirfoddol y sir fel bo modd cyfrannu at ganlyniadau gwell i bobl ifanc trwy wella mynediad a chyflwyniad pobl ifanc i wasanaethau ieuenctid; gwella datblygiad a chyfleoedd dysgu yn ogystal â chynnal unrhyw weithred arall i ddiwallu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid o fewn Gwynedd. Mae'r offer fydd ar gael i'w llogi i fudiadau Gwynedd yn cynnwys: gliniaduron (12), argraffwyr wi-fi amlbwrpas (3), camerâu fideo (2), camerâu digidol (2) a thaflunydd cyfrifiadurol (1).

Mae'r gliniaduron wedi cael eu rhannu i dri set o bedwar yn cynnwys un argraffwr fel rhan o becyn. Bydd un set ar gael ar gyfer llogi/benthyciad hirdymor hefyd (mis ar y tro) ac maent yn cynnwys meddalwedd fel 'Adobe Photoshop Elements' a 'Microsoft Publisher'.

Bydd yn rhaid i unrhyw fudiad sy'n dymuno gwneud cais am y gwasanaeth arwyddo cytundeb llogi a chydymffurfio â'r amodau sydd wedi eu pennu yn y cytundeb. Bydd blaendal o £10 yn ddyledus ar gyfer pob eitem a logir/fenthycir fel rhan o stoc, hyd at uchafswm o £80. Bydd yr arian yn cael ei ad-dalu os dychwelir yr offer yn yr un cyflwr a'i derbynnir.

I gael mwy o wybodaeth ynghylch yr eitemau sydd ar gael i'w llogi neu i wneud ymholiad i logi unrhyw un o'r eitemau, cysylltwch â mi, Ann Vaughan Jones: annvaughan@mantellgwynedd.com neu Bronwen Rowlands: bronwen@mantellgwynedd.com yn swyddfa Mantell Gwynedd yng Nhaernarfon.

Prosiect Trefi Taclus

Amcan prosiect Trefi Taclus yw rhoi cymorth i bobl Cymru i ysgwyddo cyfrifoldeb am ansawdd eu hamgylchedd lleol.

Mae gwirfoddolwyr yn 'mabwysiadu' ardal lleol ac yn canolbwyntio ar ei ofal tymor hir. Bydd cymunedau'n cael eu hybu i fabwysiadu lleoliadau sydd wedi ei llygru'n drwm gan wastraff a'i atgyweirio i'w ysblander blaenorol.

Mae'r prosiectau'n amrywio o godi sbwriel, cynnal a chadw llwybrau, rheolaeth twyni, gosod meinciau a mannau picnic, clirio rhywogaeth tramor, gwella mynediadau anabl, creu gerddi cymunedol, trefnu amnestau gwastraff a rheoli cynefinoedd.

Bydd swyddogion o Cadw Cymru'n Daclus ar gael i roi cyngor a chymorth ymarferol.

Mae grant bychan ar gael er mwyn talu am yswiriant, offer gwaith, defnydd a lluniaeth.
Bydd yn bosib i chi sefydlu grŵp eich hunan neu ymuno ac un sy'n rhedeg yn barod. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Swyddog Trefi taclus Gwynedd – Lee Oliver ar 029 2072 6995/07824 504 799 neu lee.oliver@keepwalestidy.org

SEFYDLIAD MORGAN

Mae Sefydliad Morgan yn cefnogi elusennau ar draws Gogledd Cymru, Glannau'r Merswy, Gorllewin Sir Gaer a Gogledd Sir Amwythig. Gyda rhaglen grantiau o dros £1 miliwm y flwyddyn, targedir arian ble gall fod mwyaf effeithiol wrth wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl yn yr ardal hon.

Mae Sefydliad Morgan yn arbenigo mewn cefnogi mudiadau bach a chanolig lleol sydd a'u gwaith yn canolbwyntio ar blant, teuluoedd, rhai dan anfantais a rhai anabl. Rhaid i unrhyw waith gael effaith bositif ar les ac ansawdd bywyd, neu ystyrir gwaith sy'n ehangu cyfleoedd a dewis bywyd i bobl yn yr ardal.

Ystyrir grantiau ar gyfer ystod o bwrpasau a chyn belled dyma'r math o feysydd sydd wedi cael eu ariannu – anableddau corfforol a dysgu, iechyd meddwl a chorfforol, a her ac amddifadedd cymdeithasol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ceisio am grant, yn gyntaf sicrhewch eich bod yn gymwys o dan eu polisi: Ceir rhagor o wybodaeth ar eu gwefan:
www.morganfoundation.co.uk

Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio: Jane Harris (Gweinyddydd), Ymddiriedolaeth Morgan, Blwch Post 3517, Caer, CH1 9ET
Ffôn: 01829 782800
e-bost:
contact@morganfoundation.co.uk

Ymddiriedolaeth Wolfson

Mae Ymddiriedolaeth Wolfson yn dyfarnu grantiau i gefnogi rhagoriaeth yn y maes gwyddoniaeth, iechyd, addysg, y celfyddydau a dyniaethau. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusen gofrestredig neu'n fudiad gydag amcanion elusennol. Am ragor o wybodaeth ewch ar eu gwefan www.wolfson.org.uk/flash/home.htm

Mae'n well gan yr Ymddiriedolaeth dderbyn ymholiadau trwy lythyr.

Dyma'r manylion cyswllt :
The Executive Secretary, The Wolfson Foundation, 8 Queen Anne Street, London, W1G 9LG
Ffôn: 020 7323 5730

Galluogi Gwynedd

Gwahoddir ceisiadau gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar hyd a lled Gwynedd am arian cyfalaf yn unig ar gyfer datblygu, uwchraddio neu adnewyddu adeiladau/asedau cymunedol hyd at fwyafswm o £10,000.00.

Y dyddiad cau nesaf yw dydd Mawrth, 30ain, Mehefin, 2009 ac yna 30ain, Medi, 2009. Mae'n rhaid i bob cais gyrraedd trwy law neu yn y post CYN 5.00 pm.

I drafod unrhyw ymholiad neu am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672626 neu e-bostiwch:
delyth@mantellgwynedd.com

Cronfa'r Degwm Gwynedd

Pwrpas y gronfa yw hyrwyddo gweithgareddau sefydliadau elusennol sydd o fudd i drigolion Gwynedd ac yn cyfoethogi cymunedau'r Sir.

Mae gan eisteddfodau lleol sydd wedi eu cofrestru fel elusen yr hawl i dderbyn swm o £256.50 yn flynyddol tuag at gostau unrhyw eisteddfod a gynhelir o fewn y Sir.

Mae cyfanswm o tua £20,000 arall ar gael i'w ddosbarthu i elusennau cofrestredig eraill yng Ngwynedd yn flynyddol. Mae grantiau unigol yn tueddu i fod rhwng £100 a £3,000 mewn amgylchiadau arbennig iawn.

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12fed Mai, 2009. Y dyddiadau cau dilynol ydi 25ain Awst, 2009, 17eg Tachwedd, 2009 a 9fed Chwefror 2010.

Am ragor o wybodaeth am Gronfa'r Degwm, cysylltwch ag Eirian Roberts, Cyngor Gwynedd ar (01286) 679 018 neu e-bostiwch maireirianroberts@gwynedd.gov.uk.

Dosbarthiadau Tai Chi yn Neuadd Bentref Fairbourne yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Ewch Amdani, Mantell Gwynedd.

Wythnos Gwirfoddolwyr

1af – 7fed Mehefin 2009

Trên Bach yr Wyddfa

Mae 'Wythnos Gwirfoddolwyr yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr a gwirfoddoli sy'n cael ei gynnal yn ystod yr wythnos gyntaf o Fehefin bob blwyddyn. Mae'n chwarae rhan bwysig trwy godi proffil gwirfoddoli yn ogystal ag annog eraill i gymryd rhan. Mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn trefnu:-

Stondin Deithiol

Bydd y stondin wybodaeth am wirfoddoli yn ymweld â
Caernarfon - 1af Mehefin
Pwllheli - 3ydd Mehefin
Bangor - 2il Mehefin
Dolgellau - 5ed o Fehefin

Te Dathlu a Diolch

Ar y dydd Iau, 4ydd o Fehefin, yn adeilad y Mynydd Gwefru yn Llanberis bydd te Dathlu a Diolch.

Ymweld â Chopa'r Wyddfa

Mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn dathlu ei phenblwydd yn 25ain oed eleni, ac er mwyn nodi y garreg filltir arbennig hon ac i dynnu sylw at yr Wythnos, bydd cynnig arbennig i wirfoddolwyr a chynrychiolwyr o fudiadau i ddod ar y tren i ben y Wyddfa. Byddwn yn cychwyn o Lanberis ar y tren 12.00pm dydd Iau 4ydd Mehefin. Mae angen neilltuo dwy awr a hanner ar gyfer y daith (sydd yn cynnwys 30 munud ar y copa), a bydd yn gyfle gwych i weld 'Hafod Eryri' - yr adeilad newydd sydd yn cael ei agor yn swyddogol yr wythnos ganlynol.

Mae gwahoddiad i unrhyw un ymuno â'r gweithgareddau uchod - cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd ar 01286 672626 neu gwirfoddoli@mantellgwynedd.com am ragor o fanylion.

Am ragor o wybodaeth, neu gyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â gwirfoddoli, cysylltwch â:
Ffôn: 01286 672626 / 01341 422575 neu e-bost:
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

RHWYDWAITH TREFNWYR GWIRFODDOLWYR GWYNEDD

Cynhaliwyd cyfarfod o Rwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Gwynedd yng Nghaernarfon ar yr 19eg o Fawrth. Daeth amryw o fudiadau ynghyd i drafod materion yn ymwneud â gwirfoddoli. Yn arbennig cawsom gyflwyniadau gan:

Iola, Swyddog Gwirfoddoli gyda Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn sôn am sut mae'r Ganolfan yn mynd ati i recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr;
Frances Parry, Cyd-lynydd Gwirfoddolwyr Barnardo's Cymru sydd yn hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr i gyfeillio a chefnogi teuluoedd lleol sydd gyda plentyn anabl.
Catrin Slade, Swyddog Datblygu Compostio yng Nghanolfan Amgylcheddol Moelyci, Tregarth. Cawsom hanes y Ganolfan a sut mae llu o wirfoddolwyr lleol yn cael mwynhad o fod yn rhan o'r prosiect yma.

Gwybodaeth am y newidiadau yn nhrefn archwilio - Uned Cofnodion Troseddol

Gan fod newidiadau ar droed gyda'r dull o gynnal archwiliadau datgelu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed, mae'r cyfarfod nesaf y Rhwydwaith yn canolbwyntio ar yr Uned Cofnodion Troseddol a'r rheoliadau newydd. Bydd cyflwyniad arbennig gan yr Uned (sydd yn rhan o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), yn Hen Eglwys y Santes Fair yn Nhremadog am 10.00am ar 19fed o Fai 2009.

Sesiwn am ddim, bydd croeso cynnes i bawb a chyfle i rwydweithio dros banad! Wela ni chi yno!

Y PORTH YMGYSYLLTU

Nod prosiect "Y Porth Ymgysylltu" yw gwneud cyfraniad sylweddol at godi lefelau cyflogaeth a lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru. Ariennir y prosiect gan gyllid Cydgyfeiriant (arian Ewrop), ac mae'n cael ei reoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Gobeithir cyrraedd y nod drwy fuddsoddi mewn mudiadau sy'n cynorthwyo grwpiau difreintiedig i ddod o hyd i waith. Mae'r Porth yn gynllun caffael a fydd yn cynnig contractau i fudiadau (gwerth hyd at £150,000) trwy broses dendro. Felly, os yw eich mudiad chi yn gweithio gyda rhai o'r grwpiau canlynol:

- menywod sydd am ddychwelyd i'r gwaith
- pobl ag anabledd
- defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl
- pobl dros hanner cant
- rhieni unigol

ac eraill……
gall cynllun 'Y Porth Ymgysylltu' fod yn berthnasol i chi.

Mae'r WCVA yn awr yn llunio rhestr o gyflenwyr cymeradwy, ac mae disgwyl i fudiadau sy'n dymuno bod ar y rhestr i gwblhau a chyflwyno Holiadur Cyn Cymhwyso (HCC) erbyn 15fed o Fai 2009.

Bydd gwahoddiadau i dendro am ddarpariaeth dan y Porth Ymgysylltu yn cael eu hanfon at fudiadau priodol sydd ar y rhestr o gyflenwyr cymeradwy yn unig, a disgwylir y cyhoeddir y gwahoddiadau cyntaf i dendro ym mis Awst.

Bydd angen i'r holl gyflenwyr cymeradwy ddangos eu bod yn ymgysylltu â'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, i roi sgiliau newydd a mwy o hyder i'r cyfranogwyr i'w galluogi i ddod yn weithgar yn economaidd, gan arwain hefyd at well cydlyniad cymdeithasol a datblygiad cynaliadwy yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Ers y 1af o Ebrill 2009 mae Mantell Gwynedd wedi penodi Carys Williams yn swyddog "Y Porth Ymgysylltu". Mae hi'n gweithio 4 diwrnod yr wythnos, ac mae hi ar gael i gefnogi mudiadau yn y trydydd sector i gwblhau HCC, ac i ymgeisio am gontractau fydd yn cael eu hysbysebu ar: www.see2wales.co.uk

Am fwy o wybodaeth am unrhyw agwedd o'r cynllun, cysylltwch â Carys Williams ar 01286 672626
neu e-bost carys@mantellgwynedd.com

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

CYNGHRAIR CYFLYRAU IECHYD TYMOR HIR DE GWYNEDD

Mae'r Gynghrair uchod wedi derbyn grant o £5,000 gan gronfa'r loteri "Arian i Bawb". Mae'r Gynghrair yma yn cynnwys mudiadau bach a mawr o'r sector wirfoddol sy'n ymwneud â lles a darpariaeth gwasanaethau i drigolion yn Ne Gwynedd sy'n byw neu wedi eu heffeithio gan gyflyrau iechyd tymor hir a chronig. Bydd yr arian yma yn galluogi'r Gynghrair i brynu unedau arddangos, llogi ystafelloedd cyfarfod ar gyfer digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, talu am gostau argraffu a chyfieithu fel y gall wireddu ei nod a'i amcanion. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Richard Paramor: r.paramor@btopenworld.com neu Sioned Larsen ym Mantell Gwynedd ar Sioned@mantellgwynedd.com neu 01286 672626

Grŵp Fibromyalgia/ME Môn a Gwynedd

Mae Grŵp Fibromyalgia/ME Môn a Gwynedd wedi ei sefydlu ers ychydig dros ddwy flynedd. Ar hyn o bryd maent yn cyfarfod ar nos Fercher cyntaf bob mis rhwng 7.00 a 8.30yh yng Nghanolfan Cymunedau'n Gyntaf, Hen Ysgol British, Llangefni. Mae'r grŵp yn cynnig llyfrgell wybodaeth, mynediad i'r we am y wybodaeth ddiweddaraf fyd eang, siaradwyr gwadd o gefndir iechyd, gofal cymdeithasol a holistig, cyfle i gymdeithasu gydag eraill sydd yn deall natur y salwch, cefnogaeth a chyfle i rannu problemau a gofidiau. Gan mai newydd uno a'r grŵp y mae Gwynedd, ers cychwyn 2009, mae'r grŵp yn awyddus i gael gwybod os oes gofyn am gynnal cyfarfodydd yng Nghaernarfon. Mae'r grŵp yn awyddus i gynnig sesiynau fuasai'n haws i aelodau o Gaernarfon a Phenllyn i'w mynychu. Os oes diddordeb neu am fanylion pellach cysylltwch â Rhian Medi ar: 01248 722184.

Grŵp 'Breatheasy' wedi ei ail lansio ym Mangor

Mae grŵp Breatheasy Bangor, sy'n rhan o'r British Lung Foundation (BLF), yn grŵp sydd wedi ei ffurfio ar gyfer cefnogi pobl sydd â phroblemau anadlu o unrhyw fath a hefyd ar gyfer eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'r grŵp cyfeillgar yma'n cyfarfod ar y 4ydd Dydd Iau o bob mis yng Nghanolfan yr Esgobaeth, Bangor rhwng 11:00 y bore a 1:00 y prynhawn.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â BLF Cymru ar 01792 455764.

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyna yw teitl y Bwrdd Iechyd Lleol newydd sydd sy'n cael ei greu ar gyfer Gogledd Cymru a fydd yn dod i fodolaeth yn ffurfiol ar Fehefin y 1af ac yn weithredol o Hydref 1af 2009. Mae'r gwaith o sefydlu'r Byrddau Iechyd Lleol yn symud yn ei flaen ac mae'r cyfnod pontio yn mynd rhagddo.

Os hoffech fwy o wybodaeth neu drafod unrhyw beth ymhellach mae croeso i chi gysylltu â Sioned Larsen ym Mantell Gwynedd ar sioned@mantellgwynedd.com neu os oes gennych ymholiadau eraill ar ddiwygio'r GIG, cysylltwch â Hannah Orriss:
hannah.orriss@wales.gsi.gov.uk

GWERTH £10 O HYFFORDDIANT I DRI GRŴP YNG NGWYNEDD

Enillwyd gwerth £10 o hyfforddiant am ddim gan dri grŵp - Gisda, Cymorth i Ferched, Bangor a Chymdeithas Natur Gogledd Cymru. Yn gynharach flwyddyn yma anfonwyd holiadur i fudiadau gwirfoddol Gwynedd, gyda'r tri cyntaf o'r het yn ennill gwerth £10 o hyfforddiant am ddim. Llongyfarchiadau i chi a diolch i bawb am eu hymatebion. Bydd hyn yn ein galluogi i drefnu hyfforddiant wedi'i deilwra'n well i'ch anghenion. Mae Cymorth Cyntaf wastad yn boblogaidd, yn ogystal â Hylendid Bwyd, ond mae amryw wedi gofyn am hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth, Marchnata, Cyflogi yn ogystal â Rhedeg eich Mudiad a Rheoli Gwirfoddolwyr. Os colloch eich cyfle i lenwi'r holiadur, gallwch ei lawr lwytho o'r adran gwyddion ar ein gwefan **www.mantellgwynedd.com.**

HYFFORDDIANT MANTELL GWYNEDD

Cyflogi'n Gyfreithlon

21 Mai 2009
Canolfan Dysgu Gydol Oes, Blaenau Ffestiniog

Cyfrifon Sylfaenol

9fed Mehefin 2009
Mantell Gwynedd Caernarfon

Paratoi Strategaeth Codi Arian Gynaliadwy

9fed Gorffennaf 2009
Canolfan Eglwys Tremadog

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant mae Mantell Gwynedd yn ei gynnig cysylltwch â: Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB.
Ffôn: 01341 422575 neu dolgellau@mantellgwynedd.com

Rhaglen 'Cyrsiau i Gymunedau' (CCC)

CYRSIAU ERAILL AR DARWS GOGLEDD CYMRU

Hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS), canolfannau gwirfoddolwyr a CGGC (WCVA)

Dyddiad	Lleoliad	Cyswllt CGS	Hyd
Monitro a gwerthuso gwaith eich Mudiad			
20 Mai 09	Wrecsam	AVOW	1 diwrnod
Rhoi a Chodi Arian gan y Cyhoedd			
21 Mai 09	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Ymdrin â gwrthdaro			
28 Mai 09	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Sgiliau cyfathrebu effeithiol			
2 Mehefin 09	Rhyl	CVSC	1 diwrnod
Creu gwefan – manteisio i'r eithaf ar eich gwefan ac ar y rhyngrwyd			
2 Mehefin 09	Llandudno	CVSC	½ diwrnod
Rhwydweithiau, consortia a chynghreiriau			
11 Mehefin 09	Rhuthun	DVSV	½ diwrnod
Elfennau cyfrifo sylfaenol			
18 Mehefin 09	Bae Colwyn	CVSC	½ diwrnod
Grantiau – addas ar gyfer arian			
19 Mehefin 09	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
23 Mehefin 09	Wrecsam	AVOW	1 diwrnod
Ysgrifennu datganiadau effeithiol i'r wasg			
7 Gorffennaf 09	Rhyl	DVSC	½ diwrnod
Sgiliau cyfathrebu effeithiol			
9 Gorffennaf 09	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Rhwydweithiau, consortia a chynghreiriau			
9 Gorffennaf 09	Bae Colwyn	CVSC	½ diwrnod
Rolau swyddogion			
13 Gorffennaf 09	Rhyl	DVSC	1 diwrnod
Ennill arian			
16 Gorffennaf 09	BaeColwyn	CVSC	1 diwrnod

I wneud ymholiadau cyffredinol ynghylch rhaglen Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru, cysylltwch â **Lein Gymorth CGGC (WCVA)** ar **0800 2888329** neu ebostiwch **help@wcva.org.uk**